## Beth os……

………..oeddech yn ymchwilio i niferoedd eraill o ddisgiau?

………. oedd pob rhes yn cynnwys 6 disg, neu 7, neu 8……….?

………. oeddech yn creu storïau rhif i gyd-fynd â'ch brawddegau rhif?

………. am her ychwanegol, roeddech yn ystyried rhifau sgwâr? Neu rifau triongl?




Heriau Digit Dog © Lynwen Barnsley 2017

This FREE resource is available from: www.primarytreasurechest.com

# Her disgiau â dwy ochr


Beth ydych chi'n sylwi?

Dw i'n gallu gweld:

3 + 2 = 5



Tybed sawl brawddegau rhif dw i'n gallu ysgrifennu……



**Cydiwch yn y her –** trafodwch y cwestiwn *Beth ydych chi'n sylwi arno?* Atebwch bob cwestiwn, ydy dysgwyr yn sylwi ar y patrwm? Anogwch ddysgwyr i wneud y patrwm eu hunain gan ddefnyddio disgiau dwy â dwy ochr a dweud beth maen nhw'n ei weld.

**Beth ydych chi'n sylwi arno? Beth mae Digit Dog wedi bod yn ei wneud? Pa batrymau ydych chi'n gweld arno?**

Beth mae Digit Dog yn ei olygu pan fydd yn dweud, *Gallaf weld* 3 + 2 = 5 ? Allwch chi ddangos i mi beth mae'n ei olygu? Ble ydyw e'n gallu gweld y frawddeg rif hon? Dangoswch y 3 i mi. Dangoswch y 2 i mi? Beth mae'r 5 yn ei olygu?
Rydych chi eisiau i'r plant edrych ar drefniant y disgiau - y nifer sy'n goch, y nifer sy'n felyn ac i sylwi ar sut mae pob rhes yn newid.
Beth sy'n aros yr un peth am y rhesi? Beth sy'n gwahanol?

## Beth fydd yr ateb yn eich barn chi?

Faint yn fwy o frawddegau rhif ydych chi'n credu y bydd e'n gallu eu hysgrifennu? Allwch chi ddweud brawddeg arall i mi? A fydd 10 o frawddegau pellach? Mwy? Llai? Pam?

## Gwneud yr her

Gofynnwch i ddysgwyr awgrymu dulliau gwneud yr her a chofnodi eu gwaith. Faint o frawddegau rif allwch chi eu hysgrifennu? Esboniwch gyda'r disgiau.



Chwiliwch yn graff am batrymau

## Trefnwch eich gwaith


**Awgrymwch:** ysgrifennu pob brawddeg rif ar glud-nodyn neu ddarn o bapur ar wahân. Gall y rhain gael eu trefnu i ddangos patrymau, annog gwaith systematig ac i weld unrhyw rifau a allai fod ar goll. Pa batrymau allwch chi eu gweld yn eich brawddegau rhif?
Beth sy'n debyg? Beth sy'n gwahanol?

1 + 4 = 5   2 + 3 = 5   3 + 2 = 5   4 + 1 = 5

## Esboniwch beth rydych yn meddwl

Ydych chi wedi dod o hyd i'r holl frawddegau rhif sy'n bosib?
Sut ydych ch'n gwybod? Esboniwch sut gwnaethoch chi'r her?

**Dywedodd Calculating Cat ...**




**Ydy hyn yn bosib? Beth ydych chi'n meddwl? Beth mae hi'n ei feddwl, yn eich barn chi? Allwch chi weld y brawddegau rhif?**

All y plant weld bod Calculating Cat yn edrych ar y 2 res uchaf?
Os byddwch yn edrych ar 2 res pa frawddegau rhif allwch chi eu gweld?
Anogwch greadigrwydd - edrychwch ar niferoedd gwahanol o resi. Beth am golofnau?

Heriau Digit Dog © Lynwen Barnsley 2017